



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Proffil Rôl Tywysydd Gwirfoddol

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â rhaglen Wirfoddoli'r Ganolfan. Crëwyd y proffil rôl yma er mwyn eich hysbysu chi am yr hyn rydyn ni'n chwilio ac er mwyn i chi weld os mai dyma'r rôl i chi.

Fel Canolfan Celfyddydau Cenedlaethol Cymru, ein gweledigaeth fel elusen yw ysbrydoli ein cenedl a chreu argraff ar y byd gan greu profiadau sy'n newid bywydau ac ehangu gorwelion. Mae pob ceiniog caiff ei gwario'n y Ganolfan yn ein helpu ni i ddarparu ymgysylltiad cymunedol rhagorol a gwaith dysgu creadigol sy'n cyfoethogi bywydau a dyfodol nifer o bobl.

Er mwyn i ni barhau i ddatblygu cyfleoedd, yn ogystal â chyflwyno a chynhyrchu sioeau ardderchog, mae angen cryn dipyn o gefnogaeth arnom ni.

Y Rôl

Er mwyn ymgymryd â rôl fel Tywysydd Gwirfoddol, ym mhob lleoliad yn y Ganolfan. Bydd tywyswyr gwirfoddol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth croesawgar, effeithlon, gwybodus a chyfeillgar, gan weithio ar y cyd â'n Cynorthwyyr Gofal Cwsmer i sicrhau bod ein hymwelwyr yn cael profiad bythgofiadwy.

Oes gennych chi...?

- Ddiddordeb mewn theatr a'r celfyddydau?
- Brwdfrydedd ynglŷn â gofal cwsmer?
- Agwedd cwrtais a chyfeillgar?
- Dyhead i gefnogi Canolfan Celfyddydau Cenedlaethol Cymru?

Os felly, carwn eich croesawu chi i'r tîm. Parhewch i ddarllen er mwyn gwybod rhagor am y rôl a sut y gallwch ymgeisio.

Pam gwirfoddoli yn y Ganolfan?

Os ydych chi am wneud ffrinidiau, profi'r celfyddydau, ennill sgîl newydd, bod yn rhan o gymuned a gwneud gwahaniaeth neu'n syml, eisiau mwynhau, mae pobl yn gwirfoddoli gyda ni am amryw o resymau.

wmc.org.uk
029 2063 6464

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg

Cymraeg



Prif Ddyletswyddau

- Derbyn tocynnau theatr.
- Goruchwyllo ardaloedd eistedd a sicrhau bod llwybrau ymadael yn glir o unrhyw rwystrau.
- Gwybod a dilyn polisiau a gweithdrefnau lechyd a Diogelwch.
- Goruchwyllo'r gynulleidfa yn ystod y perfformiad gan weithredu'n briodol pan fo'n angenrheidiol, e.e. gofyn i fynychwyr stopio siarad neu gymryd lluniau.
- Bod yn farsial ymadael pan a phryd bo'n briodol, gan gynorthwyo'r Rheolwr Gweithrediadau i sicrhau bod mynychwyr yn gadael yr adeilad yn ddiogel ac yn brydlon.
- Cynorthwyo'r mynychwyr i ffeindio eu ffordd o amgylch yr adeilad, gan ateb ymholiadau a meithrin lefel rhagorol o wasanaeth cwsmer.
- Cynorthwyo'r tîm gyda swyddogaethau eraill pan fo angen, fel tywys mynychwyr hwyr i'w seddi.
- Mabwysiadu ac adlynu wrth egwyddorion craidd y Ganolfan.
- Rhoi adborth i'r tîm rheoli er mwyn datblygu rhediad y cynllun.

Sifftiau Gwirfoddolwyr

Gobeithiwn y gallwch wneud 3 sifft y mis ar gyfartaledd, ond os hoffech dreulio rhagor o amser gyda ni yn y Ganolfan, mae croeso i chi. Yn gyffredinol, nid yw sifft yn hirach na 5 awr, ac os maen nhw'n hirach am unrhyw reswm byddwn yn rhoi gwybod i'n gwirfoddolwyr.

Amseroedd arferol cychwyn sifft:

- 1.15pm am berfformiad matinée
- 6.15pm am berfformiad nos

Gall amseroedd amrywio ac mae sioeau mewn lleoliadau eraill yn medru bod yn wahanol i amseru sioeau yn y brif theatr.

Buddion Gwirfoddoli yn y Ganolfan

Fel gwirfoddolwr yn y ganolfan medrwc'h hawlio gostau teithio (yn amodol ar gyfyngiadau) yn ogystal â lwfans bach am bryd os ydych chi'n gweithio dros 4 awr

Buddion eraill y byddwch yn derbyn:

- Diweddariadau cyson ar bopeth sy'n digwydd yn y Ganolfan
- Cynigion tocynnau difyfyfyr
- Y gallu i gofnodi oriau gwirfoddoli
- Geirda personol
- Hysbysiad cynnar o swyddi gwag yn y Ganolfan
- Digwyddiadau ymgysylltu unigryw i wirfoddolwyr, teithiau cefn llwyfan, sgysrsiau a chyfarfodydd

Sut i ymgeisio

Gallwch naill ai lawrlwytho ffurflen gais o'n gwefan neu e-bostio gwirfoddoli@wmc.org.uk

Be sy'n digwydd ar ôl i chi gyflwyno eich cais?

Cyflwyno ffurflen gais



Os yn llwyddiannus
Sgwrs anffurfiol gydag aelod o'r tîm



Os yn llwyddiannus
Ymuno â'r tîm!



Sesiwn Anwythiad ac Hyfforddi



I'ch croesawu chi i'r Ganolfan ac egluro materion megis
Iechyd a Diogelwch a Sut i fod yn dywysydd



3 Sifft gyntaf yn cysgodi gyda ffrind



Byddwn yn eich paru gyda Tywysydd Gwirfoddol Profiadol y
bydd yn eich helpu chi i ddysgu'r rôl a cartrefu'n y tîm.

